# CA3 - GWEITHGAREDDAU

## ABCh – Beth petai ein hardal ni yn dioddef 'Blitz'?

Gwyliwch y fideo: **Abertawe: Y Blitz Tair Noson**

https://www.youtube.com/watch?v=H6v0Z4RYhlo

Nawr, dychmygwch fod eich ardal/rhan o'ch tref/dinas wedi dioddef effeithiau '**Blitz' tebyg.**

### Pwyntiau trafod:

1. Sut mae hyn wedi effeithio ar yr ardal? Trafodwch yr **effeithiau** fel dosbarth/grŵp a **lluniwch restr** o bopeth sydd wedi cael ei ddinistrio.

2. Edrychwch ar eich rhestr a thrafod beth fyddai eich **blaenoriaethau** ar gyfer ailadeiladu eich ardal. Mae hyn yn rhywbeth yr oedd yn rhaid i gynllunwyr tref yn Abertawe ei wneud ar ôl y rhyfel.

3. Oes cyfleoedd i **wella**'r ardal gan fod cymaint wedi cael ei ddinistrio? Er enghraifft, yn Abertawe, cafodd rhai strydoedd oedd wedi bod yn rhai cul eu gwneud yn lletach fel bod lle i ragor o draffig.

### Gweithgareddau ysgrifennu:

- Ysgrifennwch **ddarn disgrifiadol** neu **gerdd** am gerdded drwy eich ardal ar ôl 'Blitz'. Canolbwyntiwch ar eich synhwyrau a'ch teimladau. Gall fod yn ddefnyddiol ichi wylio'r fideo **Swansea Blitz** eto, y tro hwn gyda'r sain wedi'i diffodd.

- Ysgrifennwch **lythyr at olygydd y papur newydd lleol** yn awgrymu beth ddylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer ailadeiladu ac unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld.

# Cysylltiadau â’r Fframwaith Llythrennedd:

## Llafaredd

**Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**
**Siarad**

### Blwyddyn 7

- cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio’r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr
- defnyddio ystod o dreigladau’n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

### Blwyddyn 8

- cyflwyno pynciau a syniadau’n gydlynus, gan ddefnyddio technegau’n effeithiol
- defnyddio ystod o dreigladau’n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

### Blwyddyn 9

- cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau
- defnyddio ystod o dreigladau’n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

## Gwrando

### Blwyddyn 7

- ymateb yn bwyllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys

### Blwyddyn 8

- ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol

### Blwyddyn 9

- ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd iddynt

## Cydweithio a thrafod

### Blwyddyn 7

- gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau
- cyrraedd consenswss a chytuno ar gamau gweithredu mewn grwpiau

### Blwyddyn 8

- trafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf

### Blwyddyn 9

- nodi bod amrywiaeth o ddewisiadau o ran camau gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp

## Ysgrifennu

### Trefnu syniadau a gwybodaeth
### Strwythur a threfn

### Blwyddyn 7

- dewis a threfnu syniadau a gwybodaeth er mwyn rhoi adroddiad clir a chyflawn
- defnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau

### Blwyddyn 8

- dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol

- trefnu darnau ysgrifennu hirach gan wneud cysylltiadau o fewn a rhwng paragraffau

### Blwyddyn 9

- dewis, dadansoddi a gwerthuso syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol

- defnyddio paragraffau ac adrannau fel bod darnau ysgrifennu hirach wedi'u trefnu'n rhesymegol

# Ysgrifennu'n gywir

### Iaith/Cystrawen/Atalnodi/Sillafu/Llawysgrifen

### Blwyddyn 7

- defnyddio geirfa amrywiol a phwrpasol yn gywir gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol
- defnyddio ystod eang o strwythurau brawddeg gan ddewis cysyllteiriau i wneud i'r ystyr fod yn glir
- ysgrifennu brawddegau gan sicrhau bod amser a pherson y ferf fel arfer yn gywir yn ei gyd-destun
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir... yn eu cyd-destun
- defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir
- defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy

### Blwyddyn 8

- defnyddio termau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc.
- ysgrifennu'n ramadegol gywir, gan amrywio hyd a strwythur brawddegau i wneud i'r ystyr fod yn glir
- ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir fel arfer yn ei gyd-destun
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir... yn eu cyd-destun
- defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir
- defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddai i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy

### Blwyddyn 9

- defnyddio ystod eang o dermau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc
- ysgrifennu brawddegau syml cyfansawdd a chymhleth yn ramadegol gywir
- ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir... yn eu cyd-destun
- defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir
- defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddai i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy